



## 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae CGGC yn gweithio gydag ystod o asiantaethau arbenigol cenedlaethol, cynghorau gwirfoddol sirol ac asiantaethau datblygu eraill i ddarparu strwythur gefnogi i'r trydydd sector yng Nghymru.
- 1.2. Mae CGGC wedi bod ynghlwm â chynllunio a gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ers 2000, o ddatblygu dogfennau rhaglenni Amcan Un i ddarparu ystod o weithrediadau trwy'r rhaglenni olynol megis y Gronfa Risg Gymdeithasol, y Farchnad Lafur Drosiannol a Phorth/Gateway a'r Gronfa Cynhwysiant Gweithredol bresennol.
- 1.3. Penodwyd CGGC yn Gorff Cyfryngol, o dan raglen bresennol 2014-2020, mewn cydnabyddiaeth o'i allu i reoli'n effeithiol a gweinyddu grantiau cystadleuol ar ran Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

## 2. Pa mor effeithiol mae trefniadau presennol i reoli Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd wedi bod?

### 2.1. Hygyrchedd

Un o'r beirniadaethau mwyaf cyffredin o Gronfeydd Strwythurol yr UE yw'r ffaith eu bod mor anodd cael atynt. Mae'r egwyddorion cynllunio, sydd wrth wraidd Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 yng Nghymru, wedi symud y ddarpariaeth oddi wrth nifer fawr o ymyriadau wedi'u cyllido tuag at fodolau mwy o faint, mwy strategol o gyflenwi. Caiff y rhan fwyaf o fentrau eu harwain, felly, gan awdurdodau lleol ac adrannau Llywodraeth Cymru, gyda'r trydydd sector yn gyfrifol, yn bennaf, am ddarparu gweithgarwch yn hytrach nag arwain prosiectau

neu fod yn bartner. Mae hyn, i raddau, yn gwneud yn fawr o gryfderau'r sector, ond golyga hefyd nad oes gan fudiadau lawer o fewnbwn o ran cynllunio, darparu a rheoli gweithrediadau.

Ymdrinnir yn rhannol â mater hygyrchedd trwy benodi mudiadau dethol fel cyfryngwyr, er enghraifft mae CGGC yn Gorff Cyfryngol (un o ddau yn unig yng Nghymru) h.y. mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi dirprwyo awdurdod i CGGC o ran grantiau trwy broses gystadleuol. Gall mudiadau llai'r trydydd sector ymgeisio, datblygu a darparu prosiectau na fyddai, fel arall, yn cael eu hystyried gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) o ganlyniad i'w maint, eu hyd a'u gwerth isel.

## 2.2. Biwrocratiaeth ormodol

Credir bod y rhaglen cronfeydd strwythurol presennol yn fiwrocraidd a'i bod yn gofyn am lefel uchel o weinyddiaeth. Mae symudiadau wedi'u gwneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf i symleiddio'r broses o gael mynediad i gronfeydd ond gellid gwneud mwy o hyd.

Gall natur fiwrocraidd y gronfa arwain at gamddealltwriaeth o reolau a rheoliadau ac mae angen i drydydd partion gynorthwyo i symleiddio gwybodaeth er mwyn i'r cyfan fod yn fwy hygyrch.

## 3. Pa effaith a gafodd y Cronfeydd Strwythurol ar economi Cymru?

3.1. Mae'r Cronfeydd Strwythurol wedi cael effaith sylweddol ar y trydydd sector yng Nghymru ac, o ganlyniad, yr unigolion hynny sydd anoddaf cyrraedd atynt, a'n cymunedau mwyaf difreintiedig.

3.2. Cafodd y trydydd sector fynediad at dros £100 miliwn o dan raglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2007-2013. Cefnogodd hyn 45 o gynlluniau a arweiniwyd gan y sector, gan gynorthwyo 8,545 o bobl i ddod o hyd i waith a 21,825 o bobl i ennill cymwysterau, creu 405 o fentrau a 720 o swyddi (gros). Trwy gytundebau wedi'u caffael, cafodd dros £187m (10% o gyfanswm gwerth cytundebau caffael) ei ddyfarnu i'r trydydd sector er mwyn darparu gweithgarwch.

3.3. O dan raglenni Cronfeydd Strwythurol presennol 2014-2020, hyd yma mae'r trydydd sector yn arwain gweithrediadau lluosog sy'n werth mwy na £147 miliwn ac mae nifer yn fwy o fudiadau yn cael mynediad i gronfeydd trwy sawl fframwaith a chytundeb rhanbarthol.

### 3.4.

Mae'n rhy gynnar i ddangos beth yw effaith lawn y rhaglen bresennol hon, ond mae'r gweithrediadau a gynhelir gan CGGC wedi ymgysylltu â bron i 16,000 o'r unigolion anoddaf eu cyrraedd ac wedi arwain bron i 15% o'r bobl hynny at gyflogaeth.

Mae buddsoddiad gan Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol CGGC wedi creu 121.55 o swyddi gyda 100 yn fwy yn cael eu rhagweld cyn diwedd y rhaglen. O'r swyddi a grëwyd mae bron i 80% wedi cael eu cynnal am dros 6 mis.

## 4. Pa wersi ddylid eu cymryd o gylchoedd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd blaenorol yng Nghymru?

### 4.1. Cyllid wedi'i glustnodi er mwyn mynd i'r afael â thlodi ac allgau cymdeithasol

Mae rhaglen Cronfeydd Strwythurol bresennol yr UE yn cefnogi mentrau niferus sy'n cyfrannu tuag at adfywiad cymdeithasol ac economaidd ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mentrau a fyddai'n annhebygol o gael eu cyllido trwy ffynonellau cartref. Er enghraifft, mae Cronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC yn ei le i gynorthwyo'r rheiny sydd bellach i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur. Mae'r mudiadau a gyllidir gan y Gronfa yn cefnogi pobl sy'n wynebu rhwystrau cymhleth i gyflogaeth, megis anabledd neu gyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Yn ystod ei oes bydd y Gronfa'n cefnogi miloedd ar filoedd o'r unigolion anoddaf cyrraedd atynt yng Nghymru.

### 4.2. Modelau tâl hyblyg

O dan raglen Cronfeydd Strwythurol bresennol yr UE, os yw'n angenrheidiol mae mentrau a arweinir gan y trydydd sector yn derbyn taliadau o flaen llaw yn hytrach nag ôl-daliadau. O dan Gronfa Cynhwysiant Gweithredol CGGC, mae mudiadau'n derbyn cyllid trwy broses grantiau gystadleuol. Mae'r modelau tâl yma'n galluogi'r trydydd sector i gymryd rhan yn y rhaglenni a chyfrannu tuag at liniaru rhai o'r risgiau ariannol a gysylltir â rheoli a darparu prosiectau a gweithrediadau a gyllidir gan arian Ewropeaidd. Rhaid i fodelau tâl hyblyg gael eu hymgorffori i unrhyw gronfa olynol er mwyn sicrhau nad yw mudiadau'r trydydd sector yn cael eu cau allan o'r ddarpariaeth.

### 4.3. Cynnal cylch cyllido hirach

Mae cylchoedd saith mlynedd presennol y rhaglen Cronfeydd Strwythurol, sy'n galluogi prosiectau i gael eu cyllido am dair blynedd a mwy, yn cael eu ffafrio dros y rheiny sy'n gydnaws â thelerau gwleidyddol a chyllidol confensiynol, ac yn enwedig y cylchoedd cyllido blynyddol a gymhwysir fel arfer i brosiectau wedi'u cyllido gan y llywodraeth. Mae ymrwymiad ariannol mwy hir dymor yn darparu diogelwch a sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio a darparu prosiectau.

#### 4.4. Ymgorffori'r Themâu Trawsbynciol

Dylai'r egwyddorion sy'n sail i'r Themâu Trawsbynciol: mynd i'r afael â thlodi, cydraddoldeb cyfleoedd a chynladwyedd amgylcheddol gael eu hymgorffori i unrhyw gronfa olynol arfaethedig ac unrhyw fentrau a gyllidir ganddi yn dilyn hynny. Bydd hyn yn gwella ansawdd a gwaddol unrhyw fenter ac yn arddangos cyfrifoldeb ar y cyd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru.

#### 4.5. Cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cymorth technegol

Pwrpas cymorth technegol yw cefnogi rheolaeth a gweithrediad effeithlon sy'n cydymffurfio o'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Mae'r gefnogaeth hon o bwys arbennig i fudiadau'r trydydd sector sy'n meddu ar sgiliau uchel yn eu maes darparu ond sydd, ar adegau, â llai o wybodaeth ynglŷn â'r gofynion rheoli a gweinyddu sy'n gysylltiedig â gweithrediadau Ewropeaidd a chyflawni prosiectau. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan Dîm Ewropeaidd y Trydydd Sector CGGC, er enghraifft, yn cynorthwyo i sicrhau bod mudiadau'n cyflawni'u targedau perfformio ac yn cydymffurfio â'r meini prawf perthnasol.

#### 4.6. Ffiniau rhanbarth Dwyrain Cymru (DC) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCaC)

Dylai'r gronfa olynol ganiatáu mwy o hyblygrwydd er mwyn gweithio rhwng rhanbarthau heb golli golwg ar yr anghenion economaidd ychwanegol o fewn rhanbarth presennol GCaC.

#### 4.7. Defnydd o amser Gwirfoddolwyr fel arian cyfatebol

Mae Cymru'n unigryw yn y ffaith ein bod yn gallu rhoi gwerth ariannol ar oriau gwirfoddolwyr sy'n galluogi iddo gael ei ddefnyddio fel arian cyfatebol yn y rhaglenni presennol. Mae gwirfoddolwyr yn darparu gwasanaeth cefnogi hanfodol wrth ddarparu nifer o'r prosiectau sy'n gweithio gyda'r bobl anoddaf cael atynt yn ein cymdeithas. Mae'r defnydd o oriau gwirfoddolwyr fel cyfraniad tuag at arian cyfatebol yn cydnabod gwir werth eu hamser yn ogystal â gwneud y cyllid yn fwy

hygyrch i nifer o fudiadau'r trydydd sector trwy gael gwared â'r angen i ddarparu arian cyfatebol gwirioneddol.

## **5. Beth ddylai blaenoriaethau ac amcanion y Gronfa Ffyniant Gyffredin fod a pha welliannau, os o gwbl, sydd angen eu gwneud i'r system gyllido Ewropeaidd bresennol?**

5.1. Bydd Covid 19 yn cael effaith sylweddol ar economi Cymru ond bydd yr effaith yn anghymesur ar y cymunedau hynny sydd eisoes yn wynebu heriau sylweddol yn dilyn y blynyddoedd o gyni a welwyd. Mae angen sicrhau nad yw'r cymunedau hyn yn cael eu gadael ar eu hôl, a rhaid rhoi pecyn cefnogi cyfrannol yn ei le i gynorthwyo pob sector, nid yn unig busnesau.

Bydd adnoddau cyhoeddus yn canolbwyntio ar adferiad nifer o wasanaethau ac ni fydd gwaith gyda chymunedau'n cael ei ystyried fel prif flaenoriaeth. Mae'r cyllid hwn yn rhoi cyfle i ganolbwyntio ar y gwaith hwn a chyrraedd ardaloedd o'n cymunedau nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn gallu'u cyrraedd.

5.2. Symud tuag at fodel mwy cytbwys, cynaliadwy o gyllido sy'n cwmpasu grantiau a chyllid ad-daladwy.

Nid yw dyraniad a dyfarniad presennol cyllid trwy'r Cronfeydd Strwythurol yn cynrychioli model cynaliadwy. Bydd ymyriadau penodol bob amser yn gofyn am gefnogaeth grant ond dylai unrhyw gronfa olynol newydd, lle bo'n bosibl, gefnogi ac annog cynhyrchiant incwm i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor mudiadau.

Mae'r model cyllid ad-daladwy a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol CGGC yn ffurf hybrid o gyllido sy'n eistedd rhwng cyllido grant a benthyciad.

Mae elfen o gyllid grant yn cael ei ddarparu i'r mudiad derbyn (40% o'r gefnogaeth ERDF) tra darperir y gweddill fel cyllid ad-daladwy (60% o'r gefnogaeth ERDF). Disgwylir i fudiadau ad-dalu'r elfen o gyllid ad-daladwy, ond ni chodir llog. Ychwanegir buddion eraill gyda'r Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol, megis gostyngiad yn y swm ad-daladwy yn ddibynnol ar berfformiad. Mae'r model hwn yn cynorthwyo i annog gorberfformio a chynyddu effaith buddsoddiadau a chreu gwaddol hirdymor i unrhyw gronfa olynol.

5.3. Cyllid ar gyfer ymyraethau ataliol

Yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn enwedig, dylai unrhyw gronfa olynol i'r Cronfeydd Strwythurol gefnogi mesurau sy'n mynd i'r afael â'r prif resymau sydd wrth wraidd diweithdra hirdymor yn hytrach nag ymyraethau sy'n ymdrin â diweithdra ei hun.

#### 5.4. Cydweddu â ffrydiau a strategaethau cyllid eraill

Dylai'r gronfa olynol gydweddu ag ac ategu ffrydiau cyllid eraill er mwyn osgoi dyblygu gweithgarwch, bylchau mewn darpariaeth a gweithio mewn seilos, e.e. Cymunedau'r Arfordir, Bargen Ddinesig ac unrhyw ymgysylltiad â rhaglenni trawswladol megis Horizon 2020, Erasmus a'r rhaglen Iwerddon Cymru.

### **6. Pa lefel o gyllid ddylai Cymru ei derbyn, a sut dylid cyfrifo hyn wrth symud ymlaen?**

6.1. Yn ystod yr ymgyrch refferendwm, gwnaed yr addewid na fyddai Cymru geiniog ar ei cholled ar ôl gadael yr UE. Felly, dylai unrhyw fuddsoddiad a ddaw i Gymru trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin adlewyrchu'r cyllid a ddynodwyd i Gymru yn hanesyddol trwy Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Yng nghyfnod rhaglen 2014-2020, dylai Cymru dderbyn £2biliwn o fuddsoddiad o'r Cronfeydd Strwythurol. O'r arian hwn, disgwylir i ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (GCaC) dderbyn £1.6biliwn a Dwyrain Cymru (DC) dros £325miliwn. Gyda'i gilydd, gydag arian cyfatebol, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn gyrru cyfanswm o bron i £3miliwn o fuddsoddiad i Gymru. Dylai unrhyw gyllid blynyddol a ddynodir adlewyrchu hyn.

6.2. Dylai dosraniad a dyraniad y Gronfa gael ei seilio ar angen pob cenedl ar wahân. Ar hyn o bryd caiff dyraniadau Cronfa Strwythurol yr UE eu penderfynu gan gynnyrch domestig gros (GDP) y pen mewn rhanbarth. Caiff rhanbarth GCaC ei chategoreiddio fel rhanbarth 'llai datblygedig' gan fod ei GDP y pen yn llai na 75% o gyfartaledd yr UE. Mae'r rhanbarth yn un o ddwy yn unig yn y DU i dderbyn y statws hwn. I'r gwrthwyneb, ystyrir DC yn rhanbarth 'mwy datblygedig' gan fod ei GDP y pen yn fwy na 90% o gyfartaledd yr UE. Yn seiliedig ar y model hwn, mae rhanbarth GCaC yn denu buddsoddiad sylweddol fwy na DC.

Mae cyflogaeth yng Nghymru yn gymharol uchel o'i gymharu â rhanbarthau eraill, megis Gogledd Ddwyrain Lloegr, ond eto mae chwarter poblogaeth Cymru yn byw mewn tlodi (23%) o ganlyniad i waith sgil isel, cyflogau gwael ac oriau rhan amser. Pe bai unrhyw gyfrifiad a ddefnyddir yn seiliedig ar lefel cyflogaeth o fewn rhanbarth, byddai Cymru ar ei cholled yn anghymesur i'w hanghenion cymdeithasol-economaidd ehangach.

## **7. A ddylai cyllid gael ei glustnodi ar sail genedlaethol neu ranbarthol neu a ddylai'r gronfa fod yn agored i dendro cystadleuol?**

7.1. Dylai'r cyllid gael ei ddosrannu gan Gymru gan ddefnyddio model sy'n seiliedig ar anghenion. Ni ddylai Cymru fod yn cystadlu gydag ardaloedd eraill o'r DU er mwyn derbyn y cyllid hwn.

Mae gan Gymru hanes hir o weithio mewn partneriaeth ac mae ganddi hanes blaenorol o gynllunio datrysiadau ar y cyd ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Yn aml ceir braidd dim ymgynghori gyda thendro cystadleuol ac mae'n canolbwyntio ar gwrdd ag anghenion y sawl sy'n tendro yn hytrach na chael ei deilwra i gwrdd ag anghenion yr ardal. Bydd model yn seiliedig ar angen yn cynhyrchu pwll dosrannu mwy amrywiol yn hytrach na chyllido'r mudiadau rheiny sydd fwyaf cymwys i baratoi ceisiadau cystadleuol.

Bydd defnyddio model dosrannu hyblyg a hygyrch yn cynorthwyo i gynhyrchu pwll dosrannu mwy amrywiol. Byddai'n sicrhau bod cyllid yn cael ei sianelu i'r rheiny sydd fwyaf addas i ddosrannu'r ymyraethau rheng flaen wedi'u teilwra sydd eu hangen o fewn cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae cefnogi'r mudiadau hynny sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â gweinyddiaeth drom a biwrocratiaeth yn unig yn rhwystro arloesedd ac yn cymryd yn ganiataol bod un maint yn addas i bawb.

## **8. Pa amserlen ddylid ei mabwysiadu ar gyfer pob cylch cyllido? Sut ddylai cyfrifoldeb dros gyllido a gweinyddu'r gronfa gael ei rannu rhwng llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig?**

8.1. Dylai cylchoedd cyllido bara 7-10 mlynedd. Byddai hyn nid yn unig yn darparu diogelwch a sefydlogrwydd ar gyfer cynllunio a darparu

prosiectau ond byddai hefyd yn torri ar draws cyfnodau Llywodraethau ac yn dileu'r siawns o ddefnyddio cyllid fel offeryn bargeinio gwleidyddol.

Caiff ei gydnabod y byddai angen cynnwys pwynt adolygu digonol mewn unrhyw becyn cyllido o'r fath er mwyn caniatáu ar gyfer gwneud newidiadau i ymdrin â'r dirwedd economaidd-gymdeithasol sy'n newid yn gyson.

## **8.2. Dylai dyraniad unrhyw gronfa olynol i Gymru fod yn ddatganoledig**

Caiff rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru ei negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd a'i fonitro gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Mae hyn yn sicrhau bod y rhaglen yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol Cymru. Byddai cronfa wedi'i rheoli gan Lywodraeth y DU yn osgoi'r strwythurau a'r systemau hyn, sydd ar hyn o bryd yn galluogi'r trydydd sector ddylanwadu ar gyfeiriad, gwariant a rheolaeth y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru.

## **9. Pa rôl allai, neu dylai llywodraeth leol a, lle bo'n briodol, Bargeinion Dinesig a Thwf chwarae mewn perthynas â'r gronfa?**

9.1. Yn ei Strategaeth Ddiwydiannol gyhoeddedig, mae Llywodraeth y DU yn cyfeirio at bwysigrwydd y Bargeinion Dinesig a Thwf. Mae'r modelau hyn yn ymddangos fel cronfeydd 'her' ac maent yn sylweddol wahanol i fodolau dyrannu a dosrannu sy'n seiliedig ar anghenion neu reolau.

9.2. Mae'n bwysig fod unrhyw bartneriaethau a strwythur sydd ynghlwm â dosraniad cyllid yn ychwanegu gwerth ac nid yn cael eu creu er mwyn cael eu creu yn unig. Rydym ar hyn o bryd yn gweld nifer o bartneriaethau'n cael eu creu ac mae llawer yn dyblygu gwaith ac ymdrech. Mae hyn yn arwain at dirwedd sy'n gymhleth iawn i ymgysylltu ag ef.

9.3. Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i drefniadau llywodraethau unrhyw drefniant olynol. Mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer rhaglen Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru 2014-2020 yn allweddol er mwyn



sicrhau cydgysylltu, lleihau dyblygiad a chaniatáu ystod o safbwyntiau, o ystod o gefndiroedd a phrofiadau, i fewnbynnu'u harbenigedd i'r broses wneud penderfyniadau a chynllunio strategol. Daw trefniadau llywodraethu hyd yn oed yn bwysicach os yw'r cronfeydd a'r strwythurau yn dameidiog, fel y gwelwn eisoes trwy gyflwyniad Bargeinion Dinesig Dinas-Ranbarthau a Strategaethau Diwydiannol Lleol. Byddem yn dadlau dros strwythur lywodraethu drosfwaol sy'n cwmpasu'r strwythurau a'r cyllid a gyflwynir o dan bolisi rhanbarthol newydd yng Nghymru, ac i gael strwythur ar bob lefel i ymrwymo i ymgysylltiad a chynrychiolaeth o'r trydydd sector.

9.4. Dylai'r gronfa olynol gael ei datblygu a'i darparu mewn partneriaeth gywir a chydadd. Mae'r trefniant presennol wedi galluogi'r trydydd sector i ddylanwadu ar gyfeiriad strategol a gweinyddiaeth y Cronfeydd, a lwyddwyd trwy gynrychiolaeth o'r sector ar y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

Fodd bynnag, nid yw'r egwyddor hon bob amser wedi'i dyblygu ar lefel leol neu ranbarthol, gyda'r sector ond yn cael ei chynrychioli'n symbolaidd yn aml. Rhaid i unrhyw drefniant olynol, felly, gynrychioli cydraddoldeb gwirioneddol ar draws y sectorau, yn nhermau cynrychiolaeth gorfforol a dylanwad. Bydd hyn yn cefnogi cyd-gynhyrchiant gweithgareddau sy'n adeiladu gwydnwch a ffyniant o fewn cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.

## **10. Oes goblygiadau i reolau cymorth gwladwriaethol?**

10.1. Mae'r fframwaith cymorth gwladwriaethol presennol yn anfwriadol afresymol i ddatblygiad cymunedol. Dylid cymryd y cyfle i ddylanwadu ar gyfeiriad cymorth gwladwriaethol ôl-Brexit. Ni ddylid methu'r cyfle i ail-lunio rheolau cymorth gwladwriaethol a, lle bo'n bosibl, gael gwared ar y rhwystrau i gefnogi mudiadau'r trydydd sector. Byddem yn dadlau dros ymdriniaeth cymorth gwladwriaethol sy'n ystyried llywodraethiant mudiad, lle caiff y rheiny â threfniadau llywodraethu nid-er-elw eu trin yn fwy ffafriol na mudiadau'r sector breifat.



UNDEB EWROPEAIDD  
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a  
Buddosoddi Ewropeaidd**  
**European Structural  
and Investment Funds**